

# CYTUNDEB WEDI'I LOFNODI I HYBU DEFNYDD CYMDEITHASOL O'R IAITH GYMRAEG YM MRO MORGANNWG

**Mae Cyngor Bro Morgannwg a Menter Bro Morgannwg wedi llofnodi cytundeb fframwaith newydd i ddatblygu gwasanaethau newydd i gryfhau'r iaith Gymraeg yng nghymunedau'r Fro.**

Sefydlwyd Menter Bro Morgannwg ym mis Ebrill 2013 gyda'r nod o hybu ac ehangu defnydd cymdeithasol o'r iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg. Ers hynny, maent wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor i gynnig nifer o weithgareddau a digwyddiadau i greu mwy o gyfleoedd i breswylwyr y Fro ddefnyddio'r iaith

y tu allan i'r gwaith a'r ysgol. Ymhlith y rhain mae gŵyl Gymreig a gynhelir yn Ynys y Barri, Gŵyl Fach y Fro, gwersi nofio i fabis a gweithgareddau hamdden eraill i bobl o bob oed.

Ers sefydlu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn 2000, mae cynnydd sylweddol yn y nifer o rieni sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant. Yn ei dro, bydd hyn yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mro Morgannwg. Bwriad Menter Bro Morgannwg yw annog y plant hynny sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, a'u rhieni, i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth mewn sefyllfaoedd

cymdeithasol.

Mae'r cytundeb fframwaith hwn yn gydnabyddiaeth ffurfiol o'r gwaith partneriaeth sydd eisoes wedi digwydd rhwng Menter Bro Morgannwg a'r Cyngor i gynnig y gweithgareddau hyn ac ymrwymo i barhau i gydweithio i gynnig y cyfleoedd hyn yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'n amlygu ymrwymiad y Cyngor i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni nod eu strategaeth: Iaith fyw, iaith byw.

Dywedodd Siân Lewis, Prif Weithredwr Menter Bro Morgannwg, 'Rydym yn falch iawn bod y Cyngor yn rhan o'r cytundeb hwn, sy'n gwarantu y byddwn yn gallu parhau i adeiladu ar y gwaith da sydd

eisoes wedi'i wneud yma yn y Fro. Rydym newydd gynnal Gŵyl Fach y Fro am yr ail dro, a oedd yn llwyddiant ysgubol, ac rydym yn gobeithio parhau i weithio'n agos gyda'r Cyngor i gynnig digwyddiadau fel hyn ac i gyflawni ein nod fel sefydliad.'

Dywedodd Rob Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr Cyngor Bro Morgannwg, 'Bydd y cytundeb hwn yn cryfhau'r bartne-

riaeth rhwng y Cyngor a Menter Bro Morgannwg. Fel sefydliad cyhoeddus yng Nghymru, mae'r Cyngor yn cydnabod yn llawn ei rôl o ran datblygu defnydd o'r iaith a'i gyfrifoldeb i gynnig amryw weithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg i breswylwyr. Edrychaf ymlaen i adeiladu ar y bartneriaeth hon a mynd i'r afael â'n nod fel Cyngor i adeiladu cymunedau cryf gyda dyfodol disglair.'

## CYNLLUN GOFAL GWYLIAU

**Cafom hanner tymor Chwefror prysur eto yn y Cynllun Gofal, gyda gweithgareddau'n cynnwys Gweithdy Srameg, Coginio Crempogau, Chwaraeon yr Urdd, Gwyllgrefft, Parti Chwe Gwlad a Thrip i'r Sinema.**

Mae'r Cynllun Gofal yn cael ei gynnal yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn ystod pob gwyliau ysgol ag eithrio'r Nadolig, ac ar gael i bob plentyn sy'n derbyn addysg cynradd Cymraeg yn y Fro. Y pris yw £20 y plentyn/diwrnod, gyda dydd



Gwener yn hanner pris os ydy'ch plentyn yn mynychu unrhyw ddiwrnod arall o fewn yr un wythnos.

Dyma'r unig ddarpariaeth gofal diwrnod cyfan cyfrwng Cymraeg ym

Mro Morgannwg (8.30am-5.30pm) ac felly mae'n cynnig cyfleoedd hollbwysig i rieni barhau i weithio ac i'r plant i barhau i ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg y tu allan i dymor yr ysgol.

## GWEITHGAREDDAU I'R TEULU



**Mae cynnig amrywiaeth o weithgareddau i deuluoedd yn rhan bwysig o wasanaeth Menter Bro Morgannwg ac yn un o dargedau Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Bydd cyrsiau wythnosol newydd yn rhan o raglen tymor yr haf, ac mae'r ddarpariaeth bresennol yn cynnwys:**

**Amser Stori**  
Cynhelir sesiynau stori a chan am ddim yn wythnosol yn ystod tymor yr ysgol - yn Llyfrgell y Barri (dydd Mawrth 10.30am), Llyfrgell Llanilltud Fawr (dydd

Iau 10.30am) a Llyfrgell y Bontfaen (dydd Iau 2pm). Bydd sesiwn newydd sbon yn dechrau yn Llyfrgell Dinas Powys ar ddydd Iau Mawrth 16eg am 10am. Croeso i bawb!

**Wâc Welis**  
Mae'r Fenter yn cynnal teithiau natur dan arweiniad Jên Dafis yn fisol rhwng nawr a'r haf. Cynhaliwyd y cyntaf o'r rhain yn Cosmeston yn ystod hanner tymor Chwefror, ac fe gafwyd bore llawn hwyl er gwaethaf y glaw!

Bydd y sesiwn nesaf yn cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn Mawrth 25ain yn Llanilltud Fawr, gan gyfarfod am 10am ym maes parcio traeth Llanilltud Fawr. Dewch i ddysgu mwy am fyd natur trwy hwyl, a chofiwch eich welis! Mae hwn yn weithgaredd i'r teulu cyfan ond wedi'i anelu yn benodol at blant 0-5 mlwydd oed. Y pris yw £3.50 y plentyn a gallwch gofrestru ar wefan y Fenter neu trwy gysylltu gyda ffion@menterbromorgannwg.cymru / 029 20689888.

## GŴYL FACH Y FRO 2017



**I ddathlu Dydd Miwsig Cymru ar Chwefror 10fed, fe gyhoeddwyd y bydd Gŵyl Fach y Fro eleni'n cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn Mehefin 17eg. Bydd wedi ei lleoli ar Ynys y Barri unwaith eto,**

**gyda phrynhawn llawn dop o adloniant cerddorol, bwyd a diod, stondinau, perfformiadau stryd a gweithgareddau o bob math.**

Byddwn yn lansio'r wyl a'r line-up llawn ym mis Ebrill - gwylwch allan am y cyhoed-

diad hynny!  
Ydych chi'n wneuthurwr lleol, ac â diddordeb i gynnal stondin grefftau neu gynnwyrch Cymreig yn yr wyl eleni? Rydym yn derbyn ceisiadau ar hyn o bryd felly cysylltwch gydan ni am fwy o wybodaeth. #gwylfachyfro

## CLYBIAU CHWARAEON

**Mae nifer o glybiau chwaraeon wythnosol yn cael eu trefnu ar draws y Fro, mewn partneriaeth rhwng Menter Bro Morgannwg, Cyngor Bro Morgannwg ac Adran Chwaraeon yr Urdd.**

Rydym yn edrych ymlaen at dymor arall prysur o glybiau ar ôl y Pasg fydd yn cynnwys Nofio, Gymnasteg, Athletau a chlybiau Aml-chwaraeon. Am fwy o wybodaeth am y gweithgareddau uchod, ac i gofrestru'ch plentyn, cysylltwch â Liam Higgins: liamhiggins@urdd.org / 07976 003344.

## HYSBYSEB SWYDD

**Mae Menter Bro Morgannwg yn chwilio am berson addas a brwdfrydig i arwain eu Cynllun Gofal Gwyliau.**

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod â chymhwyster Lefel 3 neu uwch mewn Gofal Plant/Chwarae, a dwy flynedd o brofiad o weithio ym maes Gofal Plant. Am ffurflen gais a swydd ddisgrifiad llawn, cysylltwch gyda leanne@mentercaerdydd.cymru / 029 20689888.

## PENWYTHNOS TEULU I LANGRANNOG

**Mae nifer bach o lefydd ar ôl ar ein Penwythnos Teulu i Langrannog, sy'n cael ei gynnal ar benwythnosau cyntaf y gwyliau Pasg, 7-9fed o Ebrill 2017.**

Prisiau: Oedolion £135, Plant 8+ oed £112, Plant 4-7 oed £82, Plant 2-3 oed £55, Plant dan 2 oed £15. Mae'r pris yn cynnwys llety en-suite,

brecwast, cinio, tē a swper, pob gweithgaredd yn y gwerysill, taith gerdded i'r traeth, twmpath a band byw, helffau wyau Pasg a gwern Cymraeg i Oedolion i'r rhieni. Gofynnir am flaendâl o £50 i gadarnhau'ch lle, a bydd angen i weddill y ffi gael ei dalu'n llawn erbyn y penwythnos ei hun. Cysylltwch gyda ni os hoffech chi gofrestru!

## DARPARIAETH I DDYSGWYR

**Mae datblygu cyfleoedd allgyrsiol yn hollbwysig er mwyn cefnogi'r broses o ddysgu ffurfiol, ac mae'r Fenter wedi derbyn cyllid o fewn y Fframwaith newydd i gynnig cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer a defnyddio eu Cymraeg yn gymdeithasol. Mae'r gweithgareddau yma'n addas i ddysgwyr o bob lefel.**

**Bore Coffi**  
Rydym yn cynnal Bore Coffi misol yn Foxy's Deli, Penarth, a hynny ar ddydd Iau cyntaf pob mis. Ymunwch â ni rhwng 10-11am am glonc dros goffi! Dyddiadau nesaf: Ebrill 6ed, Mai 4ydd.

**Dysgu a Diod**  
Rydym yn ddiweddar hefyd wedi sefydlu sgwrsio gyda'r nos, sy'n cyfarfod ar nos Lun cyntaf pob mis rhwng 7-8pm yn yr Old White Hart, Llanilltud Fawr. Cyfle gwyh i gyfarfod dysgwyr eraill ac ymarfer dy Gymraeg - croeso i bawb! Dyddiadau nesaf: Ebrill 3ydd, Mai 8fed (oherwydd y Gŵyl Banc).




**AL LEWIS**

CLWB RYGBI  
Llanilltud Fawr

NOS WENER  
24 Mawrth 2017

8 O'R GLOCH

TOCYN £8

ARCHEBWCH O FLAEN LLAW—  
ffion@menterbromorgannwg.cymru neu 029 2068 9888

Facebook, Twitter, Instagram, YouTube, and other social media icons.